**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MD/00449/13

William Powell AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Ebrill 2013

Annwyl William,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Ebrill ynglŷn â phedair deiseb yn ymwneud â chynigion Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar gyfer ad-drefnu yn y gorllewin.

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei gynigion terfynol ar 15 Ionawr, a chyfeiriodd Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda'r cynlluniau at fy rhagflaenydd ar 25 Chwefror, er mwyn penderfynu yn eu cylch. Ar ôl eu hystyried, penderfynwyd nad oedd cyflwyniad y Cyngor Iechyd Cymuned yn bodloni prif ofynion y *Canllawiau ar gyfer Ymgysylltu ac Ymgynghori ar Newidiadau i Wasanaethau Iechyd.*

Mae'r canllawiau yn egluro bod rhaid i Fyrddau Iechyd a Chynghorau Iechyd Cymuned weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gwasanaethau diogel a chynaliadwy yn cael eu darparu ar hyd a lled eu hardal. Rhaid i'r Cyngor Iechyd Cymuned sylweddoli ei bod yn bosibl na fydd cadw pethau fel y maent yn ymateb derbyniol, a rhaid iddo weithio gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol i gytuno ar ffyrdd o gynnal gwasanaethau o'r fath o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Rhaid manteisio ar bob cyfle i ddatrys hyn yn lleol, a dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylid cyfeirio'r mater at sylw Gweinidogion Cymru. Os bernir nad yw cynigion penodol er budd gorau gwasanaethau iechyd yr ardal, rhaid i'r Cyngor Iechyd Cymuned gynnig dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy i'w gymuned leol.

Nid oedd cyflwyniad y Cyngor Iechyd Cymuned yn bodloni'r gofynion allweddol hyn ac ysgrifennodd fy rhagflaenydd at ei Gadeirydd ar 14 Mawrth, yn gofyn i'r Cyngor ailgydio yn ei drafodaethau â'r Bwrdd Iechyd. Yn dilyn cais gan y Cyngor Iechyd Cymuned, cytunais i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyfeirio unrhyw faterion heb eu datrys i'm sylw, i 19 Ebrill. Gofynnais hefyd i'r Athro Marcus Longley weithio gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Iechyd Cymuned i helpu hwyluso'r trafodaethau hyn ac i ddod â'r mater i ben.

Yn gywir

Mark.

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services